



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 1249 (Cy. 130)

2014 No. 1249 (W. 130)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Hysbysu am
Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)
(Cymru) 2014**

**The Education (Notification of
School Term Dates) (Wales)
Regulations 2014**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mewnosodwyd adran 32A i Ddeddf Addysg 2002 gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014. Mae adran 32A(3) i (4) o Ddeddf 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr gydweithredu a chydgysylltu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgol yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod).

Section 32A was inserted into the Education Act 2002 by section 42 of the Education (Wales) Act 2014. Section 32A(3) to (4) of the 2002 Act requires local authorities and governing bodies of foundation and voluntary aided schools to co-operate and co-ordinate with each other to ensure that school term dates are the same (or as similar as can be).

Mae adran 32A(5) yn darparu ymhellach fod rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau tymhorau ysgol y penderfynwyd arnynt. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod rhaid anfon yr hysbysiad o leiaf ddwy flwyddyn ysgol ymlaen llaw. Felly, ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016/2017 y mae'r dyddiadau tymhorau cyntaf y mae awdurdodau lleol wedi penderfynu arnynt ac y mae rhaid iddynt hysbysu Gweinidogion Cymru amdanynt. Mae adran 32A(6) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ragnodi ffurf a chynnwys yr hysbysiaid, y cyfnod y mae rhaid rhoi hysbysiad ynddo a'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad. Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r materion hynny.

Section 32A(5) further provides that local authorities must notify the Welsh Ministers of the school term dates determined. These Regulations provide that the notice must be sent at least two school years in advance. Therefore, the first term dates which local authorities have determined and which must be notified to the Welsh Ministers are for the school year 2016/2017. Section 32A(6) provides that the Welsh Ministers may prescribe the form and content of the notifications, the period in which notification must be given and the procedure for notification. Accordingly, these Regulations make provision in relation to those matters.

2014 Rhif 1249 (Cy. 130)

2014 No. 1249 (W. 130)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Hysbysu am
Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)
(Cymru) 2014**

**The Education (Notification of
School Term Dates) (Wales)
Regulations 2014**

Gwnaed 12 Mai 2014

Made 12 May 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 15 Mai 2014

Laid before the National Assembly for Wales
15 May 2014

Yn dod i rym 15 Gorffennaf 2014

Coming into force 15 July 2014

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 32A a 210 o Ddeddf Addysg 2002(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 32A and 210 of the Education Act 2002(1) make the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

Title, commencement and application

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2014.

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Notification of School Term Dates) (Wales) Regulations 2014 and they come into force on 15 July 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Rheoliadau hyn—

2. In these Regulations—

ystyr “Deddf 2002” (“*the 2002 Act*”) yw Deddf Addysg 2002;

“the 2002 Act” (“*Deddf 2002*”) means the Education Act 2002;

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl banc at ddibenion paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(2);

“complete notice” (“*hysbysiad cyflawn*”) means a notice setting out all the term dates determined for all schools in its area and sent to the Welsh Ministers by a local authority pursuant to its duty in section 32A(5) of the 2002 Act;

(1) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32A gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (decc 5). Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Trosglwyddwyd swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 210 i Weinidogion Cymru gan paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(1) 2002 c. 32. Section 32A was inserted by section 42 of the Education (Wales) Act 2014 (anaw 5). Section 210(7) was amended by section 21(3)(c)(i) and (ii) of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2). The function of the National Assembly for Wales under section 210 was transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) 1971 p. 80.

ystyr “hysbysiad cyflawn” (“*complete notice*”) yw hysbysiad sy’n nodi’r holl ddyddiadau tymhorau y penderfynwyd arnynt ar gyfer pob ysgol yn ei ardal ac a anfonwyd at Weinidogion Cymru gan awdurdod lleol yn unol â’i ddyletswydd yn adran 32A(5) o Ddeddf 2002;

ystyr “hysbysiad rhannol” (“*partial notice*”) yw hysbysiad sy’n nodi’r dyddiadau tymhorau y penderfynwyd arnynt ar gyfer rhai ysgolion yn ei ardal ond nid pob un ohonynt ac a anfonwyd at Weinidogion Cymru gan awdurdod lleol yn unol â’i ddyletswydd yn adran 32A(5) o Ddeddf 2002.

Ffur a chynnwys yr hysbysiadau

3.—(1) Rhaid i bob hysbysiad cyflawn a phob hysbysiad rhannol gynnwys yr wybodaeth a rhaid iddynt fod ar y ffurf a nodir yn yr Atodlen.

(2) Caiff hysbysiad cyflawn neu hysbysiad rhannol gael ei gwblhau a’i anfon yn electronig.

Y cyfnod y mae rhaid rhoi hysbysiad ynddo

4. Rhaid i awdurdod lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am yr holl ddyddiadau tymhorau y penderfynwyd arnynt ar gyfer yr ysgolion a gynhelir yn ei ardal heb fod yn hwyrach na’r diwrnod gwaith olaf ym mis Awst yn y flwyddyn sydd ddwy flynedd yn union cyn dechrau’r flwyddyn ysgol gyntaf y penderfynwyd ar y dyddiadau tymhorau ar ei chyfer.

“partial notice” (“*hysbysiad rhannol*”) means a notice setting out the term dates determined for some but not all of the schools in its area and sent to the Welsh Ministers by a local authority pursuant to its duty in section 32A(5) of the 2002 Act;

“working day” (“*diwrnod gwaith*”) means any day other than a Saturday, a Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday for purposes of paragraph 1 of Schedule 1 to the Banking and Financial Dealings Act 1971(1).

Form and content of notifications

3.—(1) Every complete notice and every partial notice must contain the information and be in the form set out in the Schedule.

(2) A complete notice or a partial notice may be completed and sent electronically.

Period in which notification must be given

4. A local authority must notify the Welsh Ministers of all term dates which have been determined for the maintained schools in its area no later than the final working day in August in the year two years immediately preceding the beginning of the first school year for which the term dates have been determined.

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

12 Mai 2014

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

12 May 2014

(1) 1971 c. 80.

YR ATODLEN

SCHEDULE

Rheoliad 3

Regulation 3

Ffurf yr hysbysiad

Form of notice

Caiff yr hysbysiad hwn gael ei gwblhau yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu yn rhannol yn Gymraeg ac yn rhannol yn Saesneg

This notice may be completed in the Welsh or the English language, or partly in Welsh and partly in English

Hysbysiad rhif [mewnosodwch rif yr hysbysiad mewn trefn] o [mewnosodwch sawl hysbysiad rhannol a fydd yn cael eu hanfon(1)] yw hwn.

Hysbysiad am ddyddiadau tymhorau ysgol y penderfynwyd arnynt yn unol ag adran 32A o Ddeddf Addysg 2002

Mae [mewnosodwch enw'r awdurdod lleol sy'n anfon yr hysbysiad] yn rhoi hysbysiad y bydd gan yr ysgolion a nodir ym mharagraff 1 isod y dyddiadau tymhorau a nodir ym mharagraff 2 isod ar gyfer y flwyddyn ysgol [mewnosodwch y flwyddyn ysgol] i [mewnosodwch y flwyddyn ysgol(2)].

1. [Isod, mewnosodwch enwau'r ysgolion y mae'r hysbysiad hwn yn gywys iddynt]

2. [Isod, mewnosodwch y dyddiadau tymhorau ysgol y penderfynwyd arnynt ar gyfer yr ysgolion uchod]

Dechrau tymor yr hydref:

Dechrau hanner tymor yr hydref:

Diwedd hanner tymor yr hydref:

Diwedd tymor yr hydref:

Dechrau tymor y gwanwyn:

Dechrau hanner tymor y gwanwyn:

Diwedd hanner tymor y gwanwyn:

Diwedd tymor y gwanwyn:

Dechrau tymor yr haf:

Dechrau hanner tymor yr haf:

Caiff yr hysbysiad hwn gael ei gwblhau yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu yn rhannol yn Gymraeg ac yn rhannol yn Saesneg

This notice may be completed in the Welsh or the English language, or partly in Welsh and partly in English

This notice is number [insert the sequence number of the notice] of [insert how many partial notices will be sent(1)]

Notice of school term dates determined in accordance with section 32A of the Education Act 2002

[Insert the name of the local authority sending the notice] gives notice that the schools set out in paragraph 1 below will have the term dates set out in paragraph 2 below for the school year [insert the school year] to [insert the school year(2)].

1. [Insert below the name of the schools to which this notice applies]

2. [Insert below the school term dates which have been determined for the above schools]

Start of autumn term:

Start of autumn half term:

End of autumn half term:

End of autumn term:

Start of spring term:

Start of spring half term:

End of spring half term:

End of spring term:

Start of summer term:

Start of summer half term:

(1) Er enghraifft, "Hysbysiad rhif 1 o 6 yw hwn".

(2) Er enghraifft, "2016 i 2017".

(1) For example, "This is notice 1 of 6".

(2) For example, "2016 to 2017".

Diwedd hanner tymor yr haf:

Diwedd tymor yr haf:

Llofnodwyd: *[rhaid i'r prif swyddog addysg ar gyfer yr awdurdod lleol sy'n anfon yr hysbysiad lofnodi'r hysbysiad hwn(1)]*

Printiwch neu teipiwch eich enw: *[printiwch eich enw yma]*

Dyddiad: *[mewnosodwch y dyddiad yma]*

Llofnodwyd: *[rhaid i gadeirydd neu is-gadeirydd corff llywodraethu unrhyw ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig y mae hysbysiad am ddyddiadau tymhorau ysgol yn cael ei roi ar ei chyfer lofnodi'r hysbysiad hwn(2)(3)]*

Printiwch neu teipiwch eich enw: *[printiwch eich enw yma]*

Enw'r ysgol: *[mewnosodwch enw'r ysgol yma]*

Dyddiad: *[mewnosodwch y dyddiad yma]*

End of summer half term:

End of summer term:

Signed: *[the chief education officer for the local authority sending the notice must sign this notice(1)]*

Print or type name: *[print name here]*

Date: *[insert date here]*

Signed: *[the chair or vice-chair of the governing body of any voluntary aided or foundation school for which notice of school term dates is given must sign this notice(2)(3)]*

Print or type name: *[print name here]*

Name of school: *[insert name of school here]*

Date: *[insert date here]*

© Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) Mae llofnod electronig yn dderbyniol.
(2) Mae llofnod electronig yn dderbyniol.
(3) Rhaid i'r bloc llofnod a gwybodaeth hwn gael ei gwblhau gan lofnodydd ar gyfer pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig y mae'r hysbysiad hwn yn gymwys iddynt.

(1) An electronic signature is acceptable.
(2) An electronic signature is acceptable.
(3) This signature and information block must be completed by a signatory for every voluntary aided and foundation school to which this notice applies.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 1249 (Cy. 130)

2014 No. 1249 (W. 130)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Hysbysu am
Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)
(Cymru) 2014


The Education (Notification of
School Term Dates) (Wales)
Regulations 2014

£4.25

W1950/05/14

ON

ISBN 978-0-348-10946-7



9 780348 109467